Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

7 Mai, 2019

Annwyl Riant / Gwarchodwr,

Gan fod y tywydd ychydig yn oer ar hyn o bryd, caniateir i'r disgyblion wisgo siorts o **3 Mehefin, 2019 ymlaen**. Caniateir siorts plaen, du wedi'u teilwra (defnydd traddodiadol yn hytrach na siorts chwaraeon) hyd y ben-glin. Ni chaniateir ffabrig wedi ei wau (h.y. ni chaniateir deunyddiau sy'n ymestyn) dim ond ffabrig sydd wedi ei wehyddu. Ni chaniateir siorts denim neu Lycra.

Os nad yw'r disgyblion am wisgo siorts yna mae hynny'n berffaith iawn, wrth gwrs, ond hoffwn atgoffa'r disgyblion nad oes hawl ganddynt wisgo jîns i'r Ysgol.

O ran esgidiau, yn ddelfrydol, esgidiau lledr a chadarn du, ond derbynnir esgidiau cynfas neu dreinyrs plaen du - dim logos na streipiau lliw a ni chaniateir bŵts na "high-tops". Dylai'r esgidiau fod yn ddigon cadarn i amddiffyn rhag tywydd anffafriol yn ogystal â bod yn addas ac yn ddiogel yng ngweithdai'r Bloc Technoleg a gwersi yn y labordai. Dylai'r disgyblion wisgo sanau byr du heb batrwm.

Hoffwn gymryd y cyfle yma i atgoffa'r disgyblion nad oes hawl ganddynt wisgo 'hoodies' yn yr Ysgol a bod 'fleece' swyddogol yr Ysgol ar werth yn y Brif Dderbynfa.

Os am arweiniad pellach, croeso ichi i gysylltu gyda Phennaeth Blwyddyn eich plentyn neu aelod o'r Tîm Rheoli.

Diolch yn fawr ichi am eich cefnogaeth.

Yr eiddoch yn gywir,

Jane Wyn.
(Pennaeth)

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

7 May, 2019

Dear Parent / Guardian,

As the weather is rather cold currently, pupils will be permitted to wear shorts from **3 June, 2019 onwards**. Tailored black, knee-length school shorts (traditional material rather than sports' shorts) are permitted. Only woven fabrics will be permitted, not knitted fabrics (i.e. no fabrics that stretch). Lycra and denim shorts will not be permitted).

If pupils don't wish to wear shorts then that's absolutely fine, of course, but I would like to remind the pupils that they are not permitted to wear jeans to school.

In terms of shoes, ideally, sturdy leather shoes are preferable, but we will accept canvas shoes or trainers as long as they are black, plain with no logos or colourful stripes, boots or high-top styles are not acceptable. Shoes must also be sturdy enough to afford students adequate protection from the weather conditions and be suitable and safe for the Technology Block workshops and laboratory lessons in school. Pupils should wear short black socks without a pattern.

I would like to take this opportunity to remind the pupils that they are not permitted to wear 'hoodies' in School and that the official School fleece is for sale in the Main Reception.

For further guidance, please contact your child's Head of Year or a member of the Senior Management Team.

Thank you very much for your support.

Yours sincerely,

Jane Wyn.
(Headteacher)